

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

James Kaylor (Compactau), Caernarfon (1952-65 & 1977-84?)

Cyfwelai: VN022 Megan Owen
Dyddiad: 14: 04: 2014
Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Megan ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 08/10/1937

Cafodd Megan ei magu ar stad Sgubor Goch yng Nghaernarfon, plentyndod 'digon tlawd' ond hapus, digon o fwyd a dillad, a phawb yn agos iawn. Roedd ei theulu yn fawr am y capel, ac roedd Megan yn canu mewn côr ac mewn eisteddfodau. Roedd ei mam yn gweithio mewn ffatri adeg y rhyfel yn gwneud 'carco' (?) ac wedyn fel *waitress* mewn hotel. Labrwr o'r de oedd ei thad. Bu farw ei thad yn 66 o strôc. Collodd ei mam fabi arall, felly unig blentyn oedd Megan. Aeth i i ysgol y genethod yng Nghaernarfon ac wedyn pasiodd ysgoloriaeth i fynd i Ysgol Segontium. Roedd hi'n mwynhau'r ysgol er nad oedd hi'n glyfar, meddai. **Gadawodd hi yn 15 oed a chafodd hi gyfweiliad i fynd i siop drin gwallt, ond jyst pan oedd hi'n meddwl ei bod hi wedi cael y swydd, gofynnodd y cyfwelydd iddi lle roedd hi'n byw. Roedd y stad yn cael ei hystyried fel lle difreintiedig ar y pryd a chafodd hi ddim o'r swydd o achos hynny. Derbyniodd lythyr y diwrnod wedyn yn deud bod hi ddim yn 'suitable.'** Stad newydd oedd hi, gyda phobl dlawd yn dod o bob man i fyw yno.

Doedd Megan ddim wedi gadael yr ysgol yn swyddogol ond roedd ffrind ganddi, roedd wedi pasio'r ysgoloriaeth ac yn cael mynd i ysgol ramadeg, ond doedd hi ddim eisiau mynd, a dywedodd honno wrth Megan ei bod hi'n mynd i drïo am swydd yn y ffatri compactau. Aeth y ddwy ohonynt i lawr i ofyn am swydd a llwyddon nhw, a chafodd Megan 'row' gan ei mam wedyn.

Felly cafodd hi'r swydd yn syth a bu yno am ugain mlynedd. Roedd cyfweiliad y ffatri yn anffurfiol iawn, roedd y ffatri yn cymered beth roeddech chi'n ddweud, ac roedd y gweithwyr yn dod yn ffrindiau efo'r bosys ar ôl mynd i mewn, pawb yn dod i nabad ei gilydd.

Roedd ei mam yn flin ei bod hi wedi cael swydd. Doedd hi ddim yn hapus ei bod hi wedi mynd tu ôl i'w chefn, a byddai'n well ganddi tasai Megan wedi mynd i weithio mewn siop. Ond doedd Megan ddim wedi difaru, meddai; er bod y cyflog yn isel, mae wedi mwynhau ac wedi

cyfarfod llawer o ferched, a gwneud gwahanol bethau a dysgu sut i drin pawb.

Ar ei diwrnod cyntaf, roedden nhw wedi mynd yno "**fel plant bach, socs bach gwyn a ponytails, fath yn union â plant ysgol, ac yn giglan gwirion a ddim y gwbod be' i ddisgwyl.**" Roedden nhw'n rhoi'r rhai ifanc mewn ystafell efo'i gilydd lle roedden nhw'n rhoi'r pethau bach rownd yng nghanol y compactau i ddal y powdwr, a rhoi'r *satin* o'i gwmpas o. Cafodd hi ryw fath o hyfforddiant, sef un o'r merched yn dangos i'r lleill sut i'w wneud e, a *chargehand* yn dod rownd i weld sut roedden nhw'n gwneud. Doedd Megan ddim yn ofnus o gwbl, gan fod pedair ohonynt yn mynd efo'i gilydd ar yr un pryd. Roedd hi'n nabod rhai o'r merched yn barod ond roedd nifer yn dod o'r wlad - o Lanberis, Llanrug.

8.30 Roedd Megan yn gwneud y swydd uchod am bedwar mis ac wedyn cafodd hi ei symud ymlaen i wneud rhywbeth arall. Doedd hi ddim yn hoffi'r dasg newydd o gwbl ac eisiau mynd yn ôl i lle roedd hi. Roedd hi wedi dod yn gyfarwydd â'r swydd gyntaf a'r criw roedd hi'n gweithio efo nhw; roedd yr ail swydd yn gwneud pethau gwahanol. Cafodd hi ei symud eto ac wedyn gwnaethon nhw ofyn iddi i wneud y *printing*. Roedd 'na beiriant o'r enw 'belan' a oedd yn cymysgu'r paent i wahanol liwiau, ac ar slab o haearn roedd 'na batrwm, wedyn roeddech chi'n crafu'r paent ar y patrwm a dod â rwber mawr lawr arno fo a symud o ymlaen wedyn ar y copr, roedd rhaid mesur maint y compact, a'i gael e yn union yn ei le. Roedden nhw'n gwneud 'screen printing' hefyd,- mesh oedd hwnnw a'r paent yn mynd trwy'r mesh. Roedden y compactau yn dod mewn nifer 'gross' h.y. 144, a dyna oedd maint y bocs, ac roedd rhaid iddi wneud hyn a hyn o focsys mewn diwrnod. **'Wel y mwy on i'n wneud, y mwyaf on i'n arfer, o'n i'n ffluo drwyddyn nhw, ond ddim yn dangos ein bod ni'n gwneud. Roedd y rhan fwyaf ohonon ni yn gwneud y gwaith, eu cyfrwng, yn y bore ac yna roedden ni'n cael chat bach, neu beth bynnag roedden ni'n licio wedyn 'te. Roedden ni'n mynd i'r toiled ac yn y toiled, ro'n i'n dysgu dawnsio. Roedd 'na lawr o sgwâr i gyd ac roedd y genod yn dysgu i mi'r quickstep a'r waltz.'** Yn y tŷ bach hefyd, meddai, roedd y merched yn golchi'u gwallt yn barod i fynd allan gyda'r nos. Roedd y rheolwyr yn gwybod ond yn troi llygad oni bai bod rhywun yn cymryd gormod o fantais a ddim yn gwneud eu cyfran (?) o waith. Roedd y rheolwyr yn reit dda, meddai, ac yn dod yn ffrindiau â nhw.

11.50 Roedd y ffatri yn gwneud compactau a broetsys. Roedd Boots yn gwerthu'r compactau. Roedd Megan yn son am y rheolwr, Mr Chappell, a oedd wedi mynd i mewn i Boots ac wedi mesur un o'r compactau i weld a oedd hi wedi gwneud y patrwm yn iawn. Byddai'r dyn yma yn dod ati hi yn y ffatri ac yn deud os oedd ei gwaith yn 'thou' out, h.y. hyn a hyn o *centimetres* allan. Mr Ansell oedd ei boss cyntaf yn James Kaylor, - dyna oedd enw'r cwmni, a chafodd y ffatri ei gwerthu i ddyn o Lundain, a doedd Megan ddim yn hoff iawn ohono fo, dyn diarth, a doedden nhw ddim wedi gweld llawer o '*foreigners*' yn y dre. Roedd dau reolwr yn y ffatri, cyn hynny; Mr Chappell ar lawr y ffatri a Mr Welsh yn y swyddfa. Mae Mr Chappell dal yn fyw, yn 91 oed, yn yr un pentref â Megan.

Merched oedd y gweithwyr, ond roedd nifer o ddynion yn y *tool room*, tad a dau fab a dau brentis, a dynion eraill yn cario pethau. Roedd y dynion yn gwneud yr offer ac yn trwsio'r peiriannau hefyd, yn y *pressing shop*, lle oedd rhai o'r merched yn gweithio hefyd. Gofynnodd Mr Chappell i Megan a fasai hi'n dysgu popeth, er mwyn sefyll i mewn os oedd rhywun yn sâl. **Ar y peiriannau pressing, roedd 'na guard, ac roedd rhaid tynnu hwn i lawr, pwshio'r pedal ac roedd y peiriant yn dod i lawr i dorri siâp y compact allan, y gwaelod a'r top ar wahân. Ac roedd ffrind Megan yn eistedd wrth ei hochr ar un o'r peiriannau hyn, a sylwodd y ferch bod rhywbeth yn bod ar y peiriant, doedd o ddim yn dod i lawr ar ei ben ei hun, er bod y guard i fyny, ac roedd hyn y beryg. Roedd y ferch hon wedi deud dair gwaith am hyn ac roedd y ffrman wedi bod yno**

ond heb ddarganfod beth oedd y broblem, bob tro roedd e'n dod, roedd y peiriant yn gweithio yn iawn. Yn y diwedd cafodd y ferch ddamwain ar y peiriant hwn, dal ei bys ynddo a'i dorri fo i ffwrdd. Cafodd hi fil o bunnoedd fel iawndal a hi yn ferch ifanc wedi colli bys. Roedd Megan yn eistedd wrth ei hochr hi pan ddigwyddodd y ddamwain a chafodd hi sioc fawr. Roedd hi'n gweiddi ar y fforman, doedd dim llawer o gymorth cyntaf yn y ffatri, ac aeth y ferch i'r ysbyty efo'r fforman ac un o'r bosys. Dychwelodd hi i'r swydd ond dim ar y peiriannau hynny.

Doedd o ddim yn gyffredin i bobl ddysgu tipyn o bob peth, fel Megan, a dydy hi ddim yn gwybod pam wnaethon nhw ei ddewis hi, oni bai ei bod wedi bod yn y gwaith am amser hir. Ar y printio roedd hi'r rhan fwyaf o'r amser. Yno, roedd 'na beiriant gydag '*engraved designs*' arno yn gwneud patrymau fel blodau neu fythynnod, pethau bach del i fynd ar y compactau. Tasen nhw eisiau '*four gross*' o'r blodau, roedd hi'n newid y plât engrafu i'r blodau gwyn, glas a melyn. Os oedd y gwyn yn mynd arno yn gyntaf, roedd hi'n cymysgu'r paent hwnnw a gadael iddo sychu tan ei bod hi'n cymysgu lliwiau eraill. Felly roedd hi'n gwneud y blodau gwyn i gyd ar y compactau i gyd, ac wedyn rhoi'r blodau melyn arnynt, ac wedyn y blodau glas, fel hynny. Metal '*tin*' oedd y compactau ac roedd rhaid iddynt fynd i'r siop acid ac i'r siop sgleinio ac wedyn i'r siop lacro, ac yn olaf dod at Megan i gael y dylunio arnynt, ac yn ôl wedyn i'r siop lacro i gael lacyr terfynol.

19.00 O ran cyflog, roedd Megan yn ennill *one pound three and seven*; rhoi'r bunt i'w mam a chadw'r 3s 7d iddi ei hun. Ac oedd ei mam yn dued 'Ti ddim yn cael dim mwy, rhaid i ti ddysgu i wneud ar hwnna.' Ar nos Fercher a nos Sadwrn, roedd y bobl ifanc i gyd yn dod i lawr i Gaernarfon, meddai, bys o bob man, ac roedden nhw'n mynd 'rownd y blocs ac fel yna roedden ni'n cyfarfod, 'naill a'r llall ac yn mynd lawr i'r cei i garu.' Roedd Megan yn mynd efo merched y ffatri ac yn mynd i ryw gaffi i gael paned, neu pan oedd hi'n oer yn y gaeaf, Oxo. 'Doedd gynna i ddim pres i gael dim byd arall, a Vimto yn yr ha.' Roedd hi'n mynd i'r sinema hefyd ddwywaith yr wythnos os oedd hi'n lwcus, meddai - roedd tair sinema yng Nghaernarfon yr adeg hynny – y *Majestic*, yr *Empire* a'r *Guild Hall* - ac roedd pawb yn galw'r *Guild Hall* '*laugh and scratch*' o achos roedd mewn stad wael, '*dilapidated*.'

Roedd Megan yn mwynhau gweithio yn y ffatri, cafodd hi hwyl, wrth edrych yn ôl, ond ar y pryd, meddai, dydach chi ddim yn meddwl am y peth. '*Sbïo yn ôl roedd yn brofiad.*' Roedd hi'n hoffi'r printio yn ofnadwy, roedd yn ddiddorol iawn ac roedd yn rhaid i chi gael tipyn bach o sgil i wneud y printio, meddai, a gwybod beth roeddech chi'n ei wneud i gael y '*transfers*' a'r '*printing*' yn eu lle yn iawn. 'Os oeddech chi'n cymysgu'r paet yn rhy denau, roedd o'n smydgio, os oeddech chi'n cymysgu fo yn rhy dew, doedd o ddim yn printio neu gael dod drwodd trwy'r sgrin. Dyna roeddech chi'n dod i wbod yn union sut a faint i gymysgu ac i roid o yn wahanol liw, te. Adeg hynny, on i'n gwbod pa liw oedd yn gwneud gwahanol bethau.'

21.35 Roedd pobl yn dwyn y compactau. Beth oedden nhw'n ei wneud oedd, byddai rhywun yn deud 'O, mae Margaret eisiau *compact*, ga i dop a gwaelod gen ti?' Ac yn mynd â nhw i'r *polishing shop* ac yn deud bod *so and so* eisiau hwn, ac fel hynny roedden nhw'n cael nhw, a mynd â nhw i'r *assembly shop* i'w rhoi nhw at ei gilydd. Roedd Megan yn gwneud *compacts* i'w chydweithwyr ond heb gael ei thalu amdanynt, ond wnaeth hi ddim gwneud un iddi hi ei hun. Cafodd hi un ond dydy hi ddim yn cofio sut, ond mae ganddi o hyd, gyda '*liberty clock*' arno, a'r geiriau: '*One minute gone comes never back again, take heed and see nothing done in vain.*' Transfer fyddai hwn, nid engrafiad.

Roedd ei horiau o 8 tan 6 bob dydd ac weithiau gweithiai ar fore dydd Sadwrn, yn enwedig

ym mis Gorffennaf, gan fod y compactau yn cael eu gwneud i fynd i'r siopau ar gyfer Nadolig. Roedd llawer o'r compactau yn mynd i Loegr, a Boots oedd y prif brynwr. Roedd rhaid i Megan glocio mewn a mas, gan gynnwys yr awr roedd hi'n ei chael i ginio. Roedd hi'n mynd adre i gael cinio, yn cerdded, er bod hi'n 3/4 milltir, a byddai ei mam wedi gwneud cinio yn barod iddi. Roedd ei mam gartre a'r teulu yn byw ar gyflog Megan a'i thad, ac oedd ei nain yn byw efo nhw hefyd, ac ewythr oedd ddim wedi priodi, 'Nain a fi mewn un *bedroom*, mam a dad yn *bedroom* arall, ac Uncle Tom yn *bedroom* arall.' Amser braf, meddai, bwrdd mawr sgwâr, dim teledu, dim ond 'wireless,' roedd hi'n darllen, gwneud 'crochet,' dim yn difaru o gwbl. Un dda am fynd i'r capel oedd hi, ac mae'n dal i fynd.

Roedd hi'n cerdded i'r gwaith hefyd yn y bore ac yn y nos. Caent ddeg munud i frêc yn y bore ac yn y prynhawn, a tasen nhw'n gorfod gweithio'n hwyr, byddent yn cael chwarter awr arall tua chwech. Doedd na ddim cantîn yno i ddechrau, dim ond ystafell lle oedden nhw yn gwneud paned i'r gweithwyr a phrynu cacennau i mewn. Tasa gan rywun ddim pres, roedd 'na lyfr a gallent sgwennu eu henwau i lawr a thalu wedyn - "**Oedden ni'n rhoi'r cyflog yn ôl iddyn, yn prynu *cakes fancy*, fel hynna ni'n blant yn gwneud.**" Oedden nhw'n bwyta'r cacennau hyn o flaen y peiriannau tra bod nhw'n gweithio, gyda'r llwch a phob dim. Wedyn, adeiladwyd cantîn ac roedd yn orfodol i'r gweithwyr fynd yno i gael paned a bwyta, ond doedd neb eisiau gwneud, roedd pawb yn hapus yn bwyta o flaen y peiriannau. Roedd y cantîn yn neis meddai a'r gegin hefyd. Roedd pawb yn ysmegu ar y pryd ar bwys eu peiriannau; dechreuodd Megan ond doedd hi ddim yn hoffi fo. Wnaeth hi roi gorau iddo ond mae'n meddwl bob '*passive smoking*' wedi cael effaith arni. Flynyddoedd wedyn, pan oedd hi mewn swydd arall - coginio yn y ffatri brics - roedd pawb yn ysmegu fannu hefyd. Mae ganddi asthma. **Roedd llawer o lwch hefyd yn y ffatri compactau, meddai, ac roedd merched y siop wasgu yn gorfod defnyddio peiriant chwythu i chwythu'r llwch oddi yna a'r bits bach o fetel yn cael ei glampio i lawr a'i dorri'n siarp, rhaid bod rhywfaint o rheiny ar ôl ymysg y llwch, meddai. Roedd rhyw *chemical* hefyd yn y siop sgleinio, sef '*dipping*' - trichloroethylene (?) a roedd arogl hyll arno fo. Roedd merched hynach na Megan yn rhoi'r compactau i mewn i fasedg ac roeddent yn cael eu dipio i mewn i'r *trichloroethylene* ac roeddent yn dod allan yn lân ac yn mynd wedyn i gael eu sgleinio. Doedd hyn ddim ym mhrif adeilad y ffatri ond mewn rhan arall.**

31.00 Roedd y ffatri eithaf mawr ond dydy Megan ddim yn cofio faint yn hollol oedd yn gweithio yno, tua hanner cant, neu saith deg. Roedd y ffatri ei hun yn oer iawn: "**Arglwydd, oedd hi'n oer, and yn od, doedd neb yn cael annwyd. Ac oeddech chi'n gafael yn y machine yn y bore, brrrrrrrrrr. Ac yn mynd i mewn ar ôl y penwythnos yn y gaeaf te.**" Dywedodd nad oedd gwres yno trwy gydol yr ugain mlynedd y bu hi yno. Ond doedd neb yn meddwl dim byd ohono fo.

Wedyn priododd Megan a dychwelodd i'r ffatri am ddwy flynedd. Cafodd hi ferch fach a stopiodd weithio tan i Glenys gyrraedd 12 oed. Cafodd hi waith mewn '*warehouse*' yn gweithio yn y swyddfa yn gwneud yr anfonebau. **Roedd rhaid iddi fynd heibio'r ffatri compactau ar y ffordd a daeth Mr Chappell allan un bore a gofyn iddi ddod yn ôl.** Dywedodd hi fod hi'n gallu gweithio rhan amser yn y *warehouse* ac atebodd o y byddai hi'n gallu gwneud hynny yn y ffatri, felly aeth hi yn ôl i Kaylors, ac roedd hi yno am y bum mlynedd nesaf tan i'r ffatri gau. Roedd hi'n gallu gwneud yr un oriau rhan amser ag yr oedd hi'n eu gwneud yn y *warehouse* - sef o 9.30 i 2.00, a mynd i'r ysgol i nôl y ferch. Megan oedd yr unig un a oedd yn gweithio rhan amser - roedd y ffatri wedi gwneud amod arbennig iddi hi - 'am fod i'n handi, yn gallu gwneud bob dim iddyn nhw.' Doedd neb yn deud dim byd yn ei herbyn hi am hyn, ond roedd llawer o'r merched oedd wedi dechrau'r un pryd â hi wedi gadael, wedi priodi, neu wedi mynd i Ferrodos am fwy o gyflog.

Doedd dim llawer o genfigen yn y ffatri, meddai, pawb yn dod ymlaen yn dda iawn, pawb yn hapus, "a phob dydd Gwener yn meddwl yn canu fel rhywun yn meddwl bod nhw'n cael 'fortune o gyflog, pawb yn canu'n braf ar ddydd Gwener am fod ni'n cael cyflog a darfod gweithio, un yn dechrau a rhywun arall, ie, a dw i'n cofio gofyn i Mr Chappell 'Gawn ni wireless na rhywbeth yma?' 'Na chewch.' O tyrd, peidiwch fod yn *mean* rwan.' A gwybod be wnath o? 'Os rhowch chi i gyd chwech i mi bob wythnos, cewch chi.' Ha, ha, a wnaethon ni, do. *Wireless* fawr a *speakers*."

Roedd perthynas dda rhwng y merched a'r dynion. "Wel, genod ifanc oedden ni, genod bach ifanc. Roedd y dynion yn *ddynion*, yn ei 50s a 60s. Dw i'n cofio rhyw dro yn y *pressing shop*, roedd rhaid i chi basio'r *pressing shop* i fynd i'r toiled, roedd 'na ffordd glir, ac yn y *pressing shop* roedd 'na ambell i beiriant efo pelan fawr, lead am wn i oedd hi, i rhoid y pwysau i'r presses, yn dod i lawr oedd o. Roedden nhw'n medru tynnu un pelan a rhoi pelan arall i gael gwahanol bwysau. Ac roedd un o'r hogiau, y prentis, wedi rhoid un o'r pelau 'ma mewn bag papur ac wedi rhoi fo yng nghanol y ffordd 'ma i gerdded, oedd o'n gwbod bod y bos, a'r hwnnw'n ddigon annifyr, Mr Ansell, ddim yn licio *mess*. A dyma hwnnw yn dod lawr a rhoi cic mawr i'r bag papur. Oedd o ddim yn gwbod bod o'n belan. Roedd rhaid i ni i gyd fynd i'r offis, roedden nhw'n mynd i'r roi sac i ni i gyd nes bod ni'n deud pwy oedd wedi gwneud. A wnaeth neb ohonon ni ddeud."

Doedd dim undeb yn y ffatri er bod y gweithwyr wedi trio sawl gwaith i gael un a'r bosys yn deud bod nhw ddim yn derbyn undeb. Daeth Llafur i mewn ac yn deud y dylai fod. Mae Megan yn deud, efo undeb, roedd y gweithwyr wedi cael llawer o bethau ond wedi colli rhai pethau hefyd, fel mwy o gyflog. Ond wrth gael rhywbeth fel undeb, chi'n chwalu pethau hefyd, meddai. Roedd 'na undeb yn y gwaith brics pan oedd hi yno ac roedd hi'n aelod ond doedd pethau ddim lawer yn wahanol. Roedd pethau wedi symud ymlaen erbyn hynny, beth bynnag, meddai, a'r cwmnïau mawr yn gwybod bod rhaid i'r undebau dod i mewn. Y cyflog oedd yr anghytundeb mwyaf yn y ffatri compactau, meddai, ond cododd y cyflog erbyn y diwedd. Neu'r anghytundeb pan nad oedd y merched eisiau gweithio'n hwyr a'r bosys yn deud wrthynt fod rhaid iddynt wneud. Pan oedd anghytundeb, byddai un person o lawr y ffatri yn mynd at y bosys i ofyn. Byddai dewis y person hwnnw yn fater o 'Wnei di fynd?' wrth bwy bynnag, ac weithiau cael lwc, dro arall - ddim yn cael lwc. Unwaith aeth Megan ond dydy hi ddim yn cofio beth oedd yr achos na beth oedd y canlyniad.

39.00 Diniwed oedd hi, meddai, ac yn mynd yng nghanol y merched ac yn gwybod dim byd am ryw na dim byd fel 'na. Roedd y merched eraill yn deud pethau mawr wrthi a hithau'n eu coelio nhw er bod 'na ddim ffasiwn beth. Roedd y merched yn siarad am bob peth. Mae'n cofio gweithio yn yr adran '*inspection*' efo tair merch hŷn o ryw bum mlynedd - pan oedd hi'n 17 roedd hi'n meddwl bod merched 23 oed yn llawer hŷn na hi. Ac roedd y merched hyn wedi priodi ac eisiau babis ac yn mwydro bob dydd am fabis, a dyna hi yn meddwl, 'dyma ni yn mynd eto efo rhain a'r babis 'ma.' Aeth y gweithwyr i Blackpool am y diwrnod, trip o'r ffatri wedi'i drefnu gan y *chargehand*, ac yn gweld cathod *Manx*, ac roedd y cathod yma i fod yn lwcus. Prynodd hi dair cath a dod â nhw adre, a chafodd y tair merch fabi yr un. Mae Megan yn dal i weld un ohonynt yn y siop drin gwallt ac mae'n sôn am y digwyddiad. Mae hi mewn cysylltiad efo llawer o'i chyd-weithwyr.

Doedd dim triapiau eraill, dim ond y trip i Blackpool bob blwyddyn, a'r un dyn yn trefnu fo bob blwyddyn - 'I weld y goleuadau i fod. On i ddim yn mynd i weld y goleuadau, on i'n mynd i'r *pub* i gael drinc a chwilio am hogia.' Roedd y gweithwyr yn talu swllt y wythnos am gael mynd ar y trip 'ma. Dechreuodd y ffatri wneud cinio Nadolig hefyd - yr un dyn oedd wedi trefnu rhyw ddrama fach i ddau, ac roedd Megan yn un ohonynt, yn perfformio yn y cinio. Roedd ei hwythr hi yn rhedeg catalog 'Rattans' ac roedd hi wedi archebu ffrog goch a sgidiau coch ohono ar gyfer y

ddrama, a chyrhaeddodd y sgidiau ond ddim y ffrog, ond cafodd hi sgidiau i fynd i'r parti. Ar y *top table* yr oedd hi, a dwy ferch arall o lawr y ffatri, y ddwy ohonynt efo'r penaethiaid, eu gwagedd, a'r bobl a oedd yn gweithio yn y swyddfa. Aeth Megan i ofyn os oeddent eisiau diod a gofynnodd Mrs Welsh am '*Dubonet splash*' a Megan yn dychryn, achos doedd hi byth wedi clywed amdano ac roedd yn meddwl ei fod o'n mynd i gostio ffortiwn.

Roedd gan y bosys arfer o ddod atoch ar lawr y ffatri - fel un dyn, Mr Flynn, a oedd yn *chargehand* ac a oedd yn siarad o hyd ac o hyd am ei fywyd fel llongwr, pan oedd yn ifanc. Roedd gan Mr Welsh bwdl a daeth o atynt un tro a gofyn a oeddent yn mynd i unrhywle ar ôl y gwaith. Dywedodd Megan nag oedd, a gofynnodd e iddi a fasai hi'n edrych ar ôl y ci hwnnw. Doedd hi ddim eisiau ac roedd yn difaru bod hi ddim wedi deud ei bod hi'n brysur. Wnaeth Mr Welsh ei chasglu hi o'i chartref yn ei gar 'open top' ac roedd ganddi gywilydd bod pobl wedi ei gweld hi yn y car hwnnw. Roedd Mrs Welsh wedi gwneud *tray* o frechdanau ciwcumber iddi a '*sugar lumps*' efo tongs, pethau doedd hi ddim yn eu cael gartre. '*Help yourself to drinks*' meddai Mrs Welsh ond doedd Megan ddim yn yfed, 'ond roedd *tele* yna' a chafodd hi £5 am ofalu am y ci. Mae'n cofio Mrs Welsh yn dod lawr y grisiau mewn ffrog las a *cape* hir gyda *pleats* mân *navy*. Sais oedd Mr Welsh ond Cymraes oedd hi, merch i gyn-faer y dref. Roedden nhw'n gwneud ffrindiau efo'r bosys, meddai Megan, roedden nhw'n neis a dim jyst efo hi, ond efo'r rhan fwyaf yn y ffatri, roedd y gweithwyr i gyd yn eu galw nhw wrth eu henwau cyntaf. Cafodd hi anrheg gan Mr a Mrs Welsh pan oedd hi'n priodi - brwsh bach (?) Priododd Megan yn 1965 a chafodd hi'i merch yn 1967.

Mae'n edrych yn ôl ar ei blynyddoedd yn y ffatri fel amser braf. Doedd hi ddim yn barod i adael yn y diwedd ond bod iechyd ei mam ddim yn dda; heblaw hynny, fasa hi wedi mynd yn ôl, roedd hi'n colli'r cwmni. Caeodd y ffatri yn y diwedd ac roedd ei chyflog erbyn hynny wedi codi, ond dim mwy na phum punt, ond rhan amser oedd hwnnw, dydy hi ddim yn gwybod beth oedd y cyflog llawn amser.

Doedd dim bonws amser Nadolig ond roedd y cwmni yn talu am y cinio Nadolig (? dydy hi ddim yn siŵr am hyn) Cynhalion nhw ginio swyddogol pan oedd y ffatri yn cau a chafodd cardiau neis eu hargraffu ar gyfer pawb i ddeud beth oedd ar y fwydlen. Ar ben-blwydd 90 oed Mr Chappell, rhoddodd Megan gerdyn trwy'r drws iddo, efo cerdyn y fwydlen hon ynddo. Gwelodd hi fo wedyn yn aros am y bws ac oedd yn falch iawn, achos roedd o wedi gadael ei gerdyn ar ôl ar y pryd, ac roedd ei enw ynddo yn rhoi *toast* i'r Frenhines. Roedd y parti mewn hotel lle mae archfarchnad *Morrison's* yn awr ac aeth y gweithwyr i gyd iddo.

O ran gwyliau, roedden nhw'n cael dau ddiwrnod ar gyfer y Nadolig, dau ddiwrnod ar gyfer y Pasg, a phythefnos yn yr haf. Doedden nhw ddim yn mynd i ffwrdd, ar wahan i un flwyddyn pan aeth hi a'i gŵr i *Butlins* yn Skegness ar y trê. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn aros gartre, meddai, ac yn dechrau mynd i ffwrdd yn nes ymlaen, pan ddaeth yn boblogaidd, ond prin iawn yn y chwedegau. Câl'r gweithwyr y Sulgwyn i ffwrdd a *Labour Day* wedyn.

Mae'n deud fasa hi ddim wedi newid ei hamser yn y ffatri o gwbl, ond, o edrych yn ôl, roedd yn lle budr a'r llwch a'r siop sgleinio yn ofnadwy ac roedd y merched yn ddu yn dod adre oherwydd yr olew ar olwynion y peiriannau. Doedd neb yn gwisgo iwnifform heblaw rhywbeth rwber yr oedd y bobl yn y '*dipping shop*' yn ei ddefnyddio gan fod acid yno (er bod Megan yn gwisgo rhyw fath o oferôl yn y llun ohoni - VN022.4) Roedd 'na wyntyll yn tynnu'r llwch, meddai, ond roedd mwy o faw yn mynd ar y gweithwyr nag i'r gwyntyll. Mae'n syndod nad oedd neb wedi mynd yn sal o achos y llwch a'r baw. Roedden nhw'n cymryd hyn i gyd yn ganiataol ar y pryd, hyd yn oed pan oedd y gwaith gallu fod yn beryglus, achos dyna sut roedd pethau'r adeg hynny, meddai - '*you accepted everything, face value.*'

Hyd: 1 awr

English summary

James Kaylor (Compacts) Caernarfon (1952-65 & 1977-84?)

Interviewee: VN022 Megan Owen

Date: 14: 04: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Megan Owen was born on 8th October, 1937. She was raised on the Sgubor Goch estate in Caernarfon where she enjoyed a poor but happy childhood. Her mother had been a factory worker during the war and then a waitress. Her father was a labourer from South Wales. He died in 1966.

She left school at 15, failed to get a job as a hairdresser and then secured employment for the next 20 years at James Kaylor (Compacts). Her mother would have preferred her to have worked in a shop but Megan enjoyed her time at the factory and, although the wages were low she found it a friendly place to work.

As one of four girls who started together, Megan didn't feel lonely or frightened on her first day – it was somewhat of an adventure. They were given some basic training in how to assemble part of the compact which Megan did for 4 months before being moved on to something else.

8:30 Megan soon wanted to return to her old station as she didn't like her new task but was then moved on to printing. She used a machine to print designs onto the compacts and had to fill a quota of boxes each day with 144 compacts per box. The more familiar she became with the work, the quicker she was at filling boxes – but tried not to show it. Most of the workers would complete their quota in the mornings and then have time for a chat or whatever they liked. The toilet was something of a dance school where she learnt the quickstep and the waltz. It was also the place for washing hair before a night out. The managers knew this went on but Megan thinks they turned a blind eye as long as workers had filled their quotas.

11.50 The factory made brooches and compacts. Boots sold the compacts and they were sometimes inspected in situ by Mr Chappell (a manager) who would then tell Megan if her printing work was a "thou" (thousandth/inch) out. He is now 91 and still lives in Megan's village. Mr Ansell was her first boss before the factory was sold to a Londoner who Megan was not so fond of, since people were not used to seeing 'foreigners' in town.

The workers were women, but there were men in the tool room – a father and two sons and two apprentices. They made equipment and repaired the machines in the pressing shop while other men worked as porters. Mr Chappell asked Megan to learn every aspect of the work so that she could replace anybody should they fall ill. While she was working on the pressing machines, the girl next to her lost a finger in an accident and was taken to hospital. Megan remembers that she was paid £1,000 compensation.

Megan's unsure as to why she was chosen to learn all aspects of the work – possibly because she'd worked there for so long. She worked mostly on printing. She printed floral designs in different colours.

19.00 Megan earned one pound three shillings and seven pence. She gave the pound to her mother and kept the rest for herself. On Wednesday night and Saturday night young people would come by bus into Caernarfon to meet up or go courting. Megan would meet other factory girls in a café for a cup of tea or Oxo in the winter and Vimto in Summer. She also went to the cinema twice a week if she was lucky. There were 3 cinemas - the *Majestic*, the *Empire* and the *Guild Hall*, which was known as the '*laugh and scratch*' because of its dilapidated state.

Looking back over her working days at the factory, Megan realises that she had fun. She greatly enjoyed the printing work - it was very interesting and required skill. Megan goes on to describe the various printing processes.

21.35 Megan recalls how workers used to 'steal' the compacts by making them up for themselves on the sly.

Her working day was between 8am and 6pm and she sometimes worked on Saturday mornings – especially in July when the Christmas stock was being produced. Many compacts were transported to England where Boots was the main buyer. Megan clocked in and out and walked ¾ mile home for lunch which her mother would always have ready for her. She and her father were the bread-winners of the family which consisted of her mother, grandmother and an unmarried uncle. She recalls with fondness, her simple home life sat around a big table, listening to the wireless, reading or crocheting. She was and is a regular chapel-goer.

Megan outlines break-times in the factory before and after the canteen was built. She also attributes her asthma to the dusty working conditions and the fact that everyone smoked a lot.

31.00 The factory was quite large but Megan doesn't recall exactly how many workers were there – between 50-70. She remembers it being a very cold factory with no heating at all.

When Megan married, she returned to the factory for 2 years but left work for 12 years to bring up her daughter. Then she secured part time office work in a warehouse. She had to walk past the compact factory to get to work. One morning Mr Chappell came out and asked her to come back to work at Kaylor's. She was given special dispensation – the only worker on part-time hours, which enabled her to collect her daughter from school each afternoon. Megan thinks they made an exception for her because she was the only worker who could work anywhere in the factory.

On Fridays, the atmosphere was jolly – everyone singing and getting along, anticipating the end of the week and a pay packet. Megan asked Mr Chappell for a wireless and by contributing a sixpence each week they got a big wireless with a set of speakers.

There was a good working relationship between the men and women. The women were young girls, while the men were men in their 50s and 60s. One incident Megan recalls happened when one of the apprentices put a large lead ball (used for balancing the presses) in a paper bag on the floor in the middle of a thoroughfare. Mr Ansell, the boss, hated mess and he kicked the bag as he passed. Everyone was hauled into the office and threatened with the sack if he/she didn't name the trickster. Nobody let the cat out of the bag.

The bosses wouldn't allow a workers' union at the factory until the Labour party came to power. Megan believes that unions gave many things to workers but they also lost out. The issue of pay/wages was the usual bone of contention, or compulsory overtime.

39.00 Megan was quite innocent and suggestible. The other girls took advantage of her gullibility. She tells a story about workers buying Manx cats on a work trip to Blackpool.

Megan's still in touch with many of her former workmates.

Apart from the annual trip to Blackpool, there was a Christmas lunch every year. Megan remembers performing in a play one Christmas and sitting at the top table.

Mr Welsh, one of the managers once paid Megan to baby-sit his Welsh poodle while he took his wife out for the evening.

Megan looks back with fondness on her time at the factory. She was reluctant to leave and she missed the company when she did so. When the factory closed, an official dinner was held in a hotel where Morrisons stands today. On Mr Chappell's 90th birthday, Megan posted a card through his door enclosing another card – the printed menu from the dinner. He was very pleased because he'd left his menu at the dinner all those years previously and his name was printed inside – making a toast to the Queen.

Megan lists the annual holidays and states that she rarely went away apart from one year when she went with her husband on the train to Butlins at Skegness.

Looking back, Megan doesn't think she'd exchange her time at the factory, but she remembers how dirty and dusty the working environment was. She's surprised that people weren't taken seriously ill. People seemed to be more accepting/tolerant years ago.